# Dinas a Sir Abertawe

# Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth


# 2018-2019





# Adroddiad - Fersiwn hawdd ei darllen

# Cydraddoldeb i bobl Abertawe


Dinas a Sir Abertawe

Adroddiad Adolygu
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
2014 - 2015

Dyma fersiwn hawdd ei darllen o ddogfen Cyngor Abertawe o'r enw


Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
2018 – 2019




Gallwch weld y ddogfen gyflawn ar y rhyngrwyd.

## Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall

Print mawr — print mawr



Braille




CD

Cysylltwch â'r swyddog cydraddoldeb ar y manylion cyswllt canlynol



rhif ffôn

01792 636731



e-bost

MynediadiWasanaethau@abertawe.gov.uk

## Beth yw'r Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth?


### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth



Ystyr cydraddoldeb yw trin pawb yn deg

Amrywiaeth yw sut gall pobl fod yn wahanol i'w gilydd

### Adroddiad Adolygu



Dogfen yw **Adroddiad Adolygu** sy'n dweud yr hyn a ddigwyddodd

## Pam y ceir Adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth?





Mae gan y cyngor Adroddiad Adolygu i ddangos ei fod wedi gwneud yr hyn mae'r gyfraith yn ei ddweud

Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i Gyngor Abertawe drin pawb yn gyfartal




Mae'r Adroddiad Adolygu'n dangos sut mae'r cyngor yn gweithio i drin pawb yn deg yn Abertawe




Mae'n trafod gwaith y cyngor rhwng 2018 a 2019

## Beth mae'r adroddiad yn ei ddweud?


City and County of Swansea
Strategic Equality Plan
2012-2016

Mae'r adroddiad yn dweud bod gan y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae fersiwn hawdd ei darllen o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y rhyngrwyd



Mae'r adroddiad yn dangos holl waith y cyngor ar y cynllun rhwng 2018 a 2019



Mae'n sôn am yr wybodaeth y mae'r cyngor yn ei defnyddio i helpu gyda'i waith

# Cynghorwyr



Mae'r adroddiad yn dweud bod cynghorwyr yn Abertawe'n gweithio ar gydraddoldeb



Mae rhai cynghorwyr yn cael eu galw'n Hyrwyddwyr Cydraddoldeb.  Maen nhw'n gweithio gyda phobl i helpu i wneud pethau'n well

## Asesiadau Effaith



Mae'r cyngor am wneud yn siŵr ei fod yn trin pawb yn deg

Mae'r cyngor yn gwneud hyn gydag Asesiadau Effaith



Mae Asesiad Effaith yn edrych ar bethau y mae'r cyngor yn eu gwneud i sicrhau ei fod yn deg i bawb

Mae'r cyngor yn rhoi'r holl Asesiadau Effaith ar y rhyngrwyd

## Ymgynghori



Mae'r cyngor yn cynnal llawer o ymgynghoriadau

Ystyr ymgynghori yw bod y cyngor yn sicrhau ei fod yn siarad â phobl am y gwaith y mae'n ei gynllunio

Mae'n golygu bod y cyngor yn gofyn i bobl beth yw eu barn am syniadau newydd

## Pawb yn gytûn



Mae gan y cyngor gynllun i helpu pawb yn Abertawe i fod yn gytûn

Yr enw ar hwn yw'r Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol Lleol

## Gweithio gyda'n Gilydd



Mae'r cyngor yn gweithio gyda'r Heddlu

Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wneud pethau'n well i bobl

Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd ar droseddau casineb




Mae'r cyngor yn gweithio gyda sefydliadau eraill hefyd



## Gweithio gyda phobl ifanc

Mae'r cyngor yn meddwl am blant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau

Mae'r cyngor yn gweithio gydag ysgolion yn Abertawe



## Gweithio gyda phobl hŷn

Mae'r cyngor yn gweithio gyda phobl hŷn

Mae ganddo grŵp i bobl dros 50 oed



## Tlodi

Mae'r cyngor am helpu pobl sy'n byw mewn tlodi

Gallai hyn olygu nad oes ganddynt ddigon o arian i dalu am fwyd

Neu nad ydynt yn gallu defnyddio'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt

Neu nad yw pobl yn gwrando arnynt

## Staff y Cyngor



Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am weithwyr y cyngor

Mae'n dweud faint o ddynion a menywod sy'n gweithio i'r cyngor



Mae'n dweud faint sy'n anabl



Mae'n dweud beth yw oedran y gweithwyr

## Dehongli




Mae'r cyngor yn gwneud yn siŵr bod pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg yn gallu cysylltu â ni

Mae ganddo ddehonglwyr sy'n gallu cyfieithu ieithoedd gwahanol


## Cronfa Newid



Mae'r cyngor yn rhoi arian i grwpiau lleol bob blwyddyn

Y Gronfa Newid yw'r enw ar yr arian

## Y flwyddyn nesaf



Bydd y cyngor yn parhau â'i waith ar gydraddoldeb

Bydd yn creu adroddiad arall y flwyddyn nesaf